Skills for Care & Development
Sgiliau Gofal a Datblygu

# Sgiliau Gofal a Datblygu - Egwyddorion Asesu

**Tachwedd 2025, F1.1**

## Cynnwys

1 Cyflwyniad ..... 3
2 Egwyddorion asesu ..... 4
3 Asesu canlyniadau dysgu seiliedig ar wybodaeth: ..... 6
4 Cofnodi a dogfennu ..... 7
5 Defnyddio technoleg yn y broses asesu ..... 7
6 Sicrhau ansawdd mewnol ..... 9
Diffiniadau ..... 10
Atodiad A: Sgiliau Gofal a Datblygu - dolenni at wefannau partneriaid ..... 11
Atodiad B: Cymwysterau cydnabyddedig i aseswyr a’r rhai sy’n sicrhau ansawdd mewnol ..... 11

# 1 Cyflwyniad

1.1. Mae Sgiliau Gofal a Datblygu (SGD) yn gynghrair o sefydliadau allweddol o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a'r Alban sydd â rolau amrywiol ar draws gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol, plant a phobl ifanc, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gyda chylchoedd gwaith ar draws datblygu a rheoleiddio'r gweithlu.

1.2. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu sylfaenol disgwyliedig o ran asesu a sicrhau ansawdd mewnol a dylid ei darllen ochr yn ochr â threfniadau rheoleiddio cymwysterau ac unrhyw ofynion penodol a nodir ar gyfer cymwysterau. **Gellir cael gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol ynghylch asesu gan Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu (AO/B) a chan sefydliadau partner Sgiliau Gofal a Datblygu gan ddefnyddio'r dolenni yn Atodiad A.**

1.3. Bwriad yr wybodaeth yn y ddogfen hon yw cefnogi prosesau sicrhau ansawdd Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu a chanolfannau cymeradwy sy'n cynnig cymwysterau yn y sectorau.

1.4. Lle mae cymwysterau Sgiliau Gofal a Datblygu yn cael eu cefnogi ar y cyd â Sgiliau ar gyfer Iechyd, dylid hefyd ystyried egwyddorion asesu Sgiliau ar gyfer Iechyd.

1.5. Drwy gydol y ddogfen hon, defnyddir y termau canlynol:

- “Uned” - a ddefnyddir er mwyn cadw pethau'n syml, ond gall hyn olygu modiwl neu unrhyw derm tebyg arall.
- “Canolfan” - sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn cadw pethau'n syml; mae hyn yn golygu'r darparwr hyfforddiant / dysgu sydd wedi cael ei gymeradwyo i ddarparu cymwysterau gan y Cyrff/Sefydliadau Dyfarnu.
- Unigolyn ac eraill: mae "unigolyn" yn cyfeirio at y person neu'r bobl sy'n derbyn gofal neu gymorth. Gall "Eraill" gynnwys teuluoedd, gofalwyr, pobl eraill yn y lleoliad, aelodau'r tîm a gweithwyr proffesiynol eraill.

1.6. Ym mhob gwaith, byddem yn disgwyl i aseswyr arsylwi ac adolygu dysgwyr gan gynnal gwerthoedd a safonau craidd, arferion cynhwysol, ymddygiad proffesiynol, ac agweddau sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer o ansawdd a chael eu hasesu yn y cymhwyster.

1.7. Dylai pob dysgwr ddilyn safonau ymddygiad priodol. Rhaid i bawb sy'n ymwneud ag unrhyw fath o asesiad wybod a chroesawu'r gwerthoedd a'r safonau ymarfer a nodir yn y dogfennau hyn.

1.8. Rhaid i leisiau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau fod wrth galon holl arferion aseswyr a dysgwyr. Dylai hyn fod yn amlwg drwy gydol y dystiolaeth a ddarperir o ran ymarfer dysgwr. Dylai dysgwyr hefyd gael cyfle i roi adborth drwy gydol y broses asesu a sicrhau ansawdd mewnol.

## 2 Egwyddorion asesu

2.1. Mae arferion da yn mynnu'r canlynol:

- Mae angen asesiadau cychwynnol cadarn i nodi a chynllunio ar gyfer anghenion pob dysgwr, gan sicrhau bod eu rôl a'u cyfrifoldebau'n bodloni holl ofynion y cymhwyster, gan gynnwys yr unedau gorfodol a dewisol.
- Dylai canolfannau fod â phrosesau ar waith i ganfod a chydnabod cyfleoedd i ddefnyddio Dysgu Blaenorol Achrededig (APL) a/neu Gydnabod Dysgu Blaenorol (RPL), a dylai'r rhain fodloni gofynion y Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu (AO/B).
- Dylai canolfannau hefyd fod â phrosesau ar waith i gefnogi addasiadau rhesymol, ac eto, dylai'r rhain fodloni gofynion y Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu.

2.2. Rhaid i'r ganolfan fonitro bod dysgwyr wedi cofrestru â'r Sefydliad/Corff Dyfarnu **cyn** i'r asesiad ffurfiol barhau.

Rhaid i aseswyr allu dangos tystiolaeth lawn o'r penderfyniadau asesu y maent wedi'u gwneud, a'u cyfiawnhau, yn unol ag egwyddorion dilysrwydd, cywirdeb, dibynadwyedd, bod yn gyfredol a digonolrwydd. Dylai cofnodion asesu fod yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn gyflawn, a dylent fodloni'r gofynion a nodir gan y Sefydliad/Corff Dyfarnu a'r strategaeth asesu gysylltiedig lle bo hyn ar waith.

2.3. Rhaid i asesiad sy'n seiliedig ar sgiliau gynnwys arsylwi uniongyrchol fel y brif ffynhonnell asesu a'r un fwyaf dibynadwy o dystiolaeth, a gynhelir gan yr asesydd wyneb yn wyneb â'r dysgwr yn ei weithle. Rhaid i arsylwi ddigwydd dros gyfnod priodol o amser a pheidio â bod i gyd ar y diwedd. Dylai

tystiolaeth fod yn digwydd yn naturiol a lleihau'r effaith ar unigolion sy'n defnyddio gofal neu gymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Os oes gan ganolfan resymau dilys a gwirioneddol dros fethu â bodloni'r gofynion arsylwi uniongyrchol, efallai y caniateir dulliau hyblyg tymor byr. Rhaid safoni'r dulliau hyn, a rhaid i'r ganolfan drafod a chytuno ar hyn gyda'r Sefydliad/Corff Dyfarnu. Gweler 2.8 a 5.5

2.4. Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer canlyniadau dysgu seiliedig ar sgiliau gael eu gwneud yn ystod gweithgaredd gwaith arferol y dysgwr gan asesydd cymwys, gwybodus sydd â chymhwyster galwedigaethol.

2.5. Rhaid i aseswyr ddangos cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth am y sector ar y lefel y maent yn ei hasesu neu uwch, gan gynnal hyn drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

- Mewn enghreifftiau lle mae aseswyr yn dychwelyd i ymarfer, dylai cynllun datblygu proffesiynol fod ar waith i sicrhau cymhwysedd presennol yn y sector yn erbyn y lefel, y pwnc sy'n cael ei asesu, ac arferion asesu cyffredinol.

- Os yw asesydd yn gymwys yn alwedigaethol ond heb gymhwyso eto, rhaid i asesydd cymwys wneud y penderfyniadau asesu terfynol. Rhaid i'r rhain gael eu dilysu drwy adlofnodi a'u hategu gan sicrwydd ansawdd mewnol cadarn, cynlluniau a gweithgareddau samplu nes bod gofynion y cymhwyster yn cael eu bodloni.

- Cyfrifoldeb y Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu yw cadarnhau bod aseswyr mewn canolfannau yn gymwys ac yn meddu ar y cymwysterau priodol i wneud penderfyniadau asesu.

2.6. Dim ond pan fydd hynny wedi'i nodi yng ngofynion asesu'r uned neu wedi'i gytuno â'r Sefydliad/Corff Dyfarnu neu wedi'i gytuno â'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol sy'n gweithredu ar ran y Sefydliad/Corff Dyfarnu.

2.7. Gall tystiolaeth tyst gan eraill, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, fod yn gyfraniad pwysig at dystiolaeth yn y broses asesu a gall gyfoethogi a thriongli tystiolaeth arall a geir. Nid yw tystiolaeth tyst yn cymryd lle arsylwi uniongyrchol ac ni ddylid ei defnyddio fel yr unig dystiolaeth o sgiliau. Mae tystiolaeth tyst a thystiolaeth tyst arbenigol yn ddau fath gwahanol o dystiolaeth. Rhaid cael cydsyniad gwybodus ar gyfer y rhai sy'n darparu tystiolaeth tyst.

2.8. Mae tystion arbenigol yn chwarae rhan bwysig mewn asesiadau. Rhaid iddynt:

- feddu ar wybodaeth ymarferol o'r unedau perthnasol
- bod yn alwedigaethol gymwys yn yr unedau perthnasol, a
- meddu ar naill ai gymhwyster mewn asesu yn y gweithle neu rôl yn gwerthuso perfformiad staff yn eu maes arbenigol.

2.9. Dylai prosesau priodol i ganfod a recriwtio, cadarnhau, cefnogi a safoni tystion arbenigol addas gael eu defnyddio gan y ganolfan a'u sicrhau gan y Sefydliad/Corff Dyfarnu.

2.10. Mae'r tyst arbenigol yn ffynhonnell ddibynadwy o dystiolaeth:

- Lle nad yw'r asesydd yn gymwys yn alwedigaethol mewn maes arbenigol e.e. tasg gofal iechyd, gellir defnyddio tystiolaeth tyst arbenigol i arsylwi'n uniongyrchol ar yr uned (nid y cymhwyster cyfan) lle mae ganddo arbenigedd galwedigaethol yn y maes arbenigol.
- Pan gaiff ei ddefnyddio fel dull i gyfoethogi, ategu ac ychwanegu triongli at ddulliau a chanlyniadau asesu eraill.
- Wrth gefnogi hyblygrwydd lle mae ffactorau dilys a gwirioneddol o ran methu â chael arsylwi uniongyrchol yn y gweithle e.e. ystyriaethau unigol, sensitifrwydd o ran yr amgylchedd ac ymarfer. Rhaid trafod a chytuno ar achlysuron lle mae angen gwneud hyn gyda'r Sefydliad/Corff Dyfarnu. Ni ddylai hwn fod yr unig ddull a ddefnyddir yn lle pob arsylwad.
- Lle caniateir hynny yn unol â'r strategaeth asesu.

2.11. Dylai'r defnydd o dystion arbenigol gael ei bennu a’i gytuno gan yr asesydd, yn unol â threfniadau sicrhau ansawdd mewnol a gofynion y Sefydliad/Corff Dyfarnu ar gyfer asesu unedau o fewn y cymhwyster a'r sector. Yr asesydd sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gefnogi'r tyst arbenigol drwy'r broses ac am wneud y penderfyniad asesu terfynol.

## 3 Asesu canlyniadau dysgu seiliedig ar wybodaeth:

3.1. Asesu canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar wybodaeth:

- gall ddigwydd mewn amgylchedd gwaith go iawn neu y tu allan iddo
- rhaid iddo gael ei wneud gan asesydd gwybodus sydd â chymhwyster galwedigaethol ac sy'n gymwys i wneud penderfyniadau asesu

- rhaid iddo fod yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac yn gyfredol
- gall gael ei gynorthwyo gan raglenni eDdysgu i gefnogi asesiad crynodol cyffredinol, drwy helpu dysgwyr i gaffael ac adolygu gwybodaeth, ond ni allant ddisodli asesiad ymarferol mewn amgylchedd gwaith go iawn
- gall gynnwys profion awtomataidd rhagosodedig (megis cwestiynau amlddewis) sy'n cyfrannu tystiolaeth tuag at benderfyniadau crynodol. Fodd bynnag, rhaid eu hategu gan ddulliau asesu uniongyrchol sy'n dangos gallu'r dysgwr i ddefnyddio gwybodaeth mewn sefyllfaoedd gwaith go iawn
- rhaid ystyried APL/RPL er mwyn osgoi dyblygu dysgu.

## 4 Cofnodi a dogfennu

4.1. Rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a sicrhau ansawdd, ni waeth beth yw'r fformat, gydymffurfio â chyfreithiau cyfrinachedd a diogelu data. Rhaid i wybodaeth fod yn hawdd ei holrhain, yn archwiliadwy, yn ddilys ac yn bodloni egwyddorion asesu. Yn ogystal, ni ddylai unrhyw recordiadau beryglu preifatrwydd nac urddas unrhyw un. O’r herwydd, mae angen cyfeirnodi clir a chadarn er mwyn sefydlu perthynas rhwng y dystiolaeth a'r safon asesu, sy'n dilysu cymhwysedd. Dylai cyfeirnodi nodi’n glir y lleoliad penodol yn y dystiolaeth lle mae'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol yn cael eu hawlio, naill ai ar bapur neu mewn e-bortffolios.

## 5 Defnyddio technoleg yn y broses asesu

5.1. Dylai canolfannau fod â pholisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith ynghylch Deallusrwydd Artiffisial (AI) a thechnoleg, a rhaid i'r rhain fodloni'r gofynion a nodir gan y Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu (AO/B).

5.2. Gall technoleg, llwyfannau ac e-bortffolios gefnogi asesu drwy alluogi cynllunio, adolygiadau, myfyrio gan ddysgwyr, trafodaethau proffesiynol, a chasglu tystiolaeth gan dystion arbenigol. Wrth ddefnyddio technoleg yn y cyd-destunau hyn, dylid sicrhau:

- bod recordio, storio a mynediad yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyfrinachedd a diogelu data

- nad yw unigolion sy'n derbyn gofal neu gymorth ac eraill yn cael eu recordio'n anfwriadol
- rhaid i gydsyniad gwybodus gael ei roi'n rhydd gan bawb sy'n rhan o'r asesiad a rhaid i hyn gael ei ddogfennu.

5.3. Ni chaniateir defnyddio technoleg i arsylwi a dilysu cymhwysedd dysgwyr (arsylwi o bell) os yw'n peryglu preifatrwydd, urddas neu gyfrinachedd unrhyw un.

5.4. Lle caniateir hynny gan ganllawiau'r sector neu'r cymhwyster, gellir defnyddio technoleg i arsylwi cymwyseddau seiliedig ar dasgau dysgwyr o bell, fel cyfarfodydd ar-lein neu gymorth o bell i gydweithwyr. Rhaid i dystiolaeth o'r fath gael ei marcio'n glir a'i gwahaniaethu oddi wrth fathau eraill. Ni ddylid ei defnyddio pan fydd angen rhyngweithio'n uniongyrchol ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal neu gymorth neu eraill.

5.5. Mae'r dull arsylwi o bell yn 5.4 yn atodol ac nid yw'n disodli arsylwi uniongyrchol fel y prif ddull asesu. Dylid ei ddefnyddio i gefnogi a gwella asesiadau uniongyrchol wedi'u cynllunio drwy gydol y cymhwyster.

5.6. Mae arferion canolfannau o ran defnyddio technoleg i gael eu monitro a'u sicrhau gan y Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu, a dylai hyn gynnwys ystyriaeth y ganolfan o'r canlynol:

- Mae'r defnydd yn cyd-fynd ag unrhyw ganllawiau ychwanegol a bennir gan y Sefydliad/Corff Dyfarnu, y cymhwyster sy'n cael ei asesu, unrhyw ystyriaethau penodol i'r sector a strategaethau asesu cysylltiedig sydd ar waith.
- Mae'r ganolfan yn deall yr ystyriaethau moesegol wrth ddefnyddio technoleg yn y sectorau ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi defnydd.
- Defnyddir dulliau cadarn o asesu risg i sicrhau bod risgiau i unigolion ac i eraill yn cael eu dileu.
- Mae arferion a dulliau gweithredu canolfannau yn cael eu harwain a'u cefnogi gan safoni trylwyr.
- Mae'r dechnoleg a'r rhaglenni a ddefnyddir wedi'u safoni, yn hygyrch, yn ddiogel ac yn ddibynadwy.
- Os yw'r ganolfan yn caniatáu i'r asesydd a'r swyddog sicrhau ansawdd mewnol ddefnyddio dyfeisiau personol (e.e. ffonau, dyfeisiau tabled neu liniaduron personol), yna dylai gweithdrefnau fod ar waith i sicrhau

agweddau o ran data a chyfrinachedd. Mae hyn yn cynnwys ystyried ble a sut y ceir mynediad at ddyfeisiau i weld tystiolaeth dysgwyr.

- Dylai cynllunio a thrafod asesiadau nodi'r cyfleoedd perthnasol a diogel i ddefnyddio technoleg, ynghyd â'r dull a ddefnyddir i archwilio a lliniaru unrhyw risgiau.
- Nid yw dulliau cofnodi tystiolaeth a phrosesau canlyniadau asesu yn cynyddu'r risg o unrhyw achosion o dorri rheolau data neu gyfrinachedd.
- Mae canlyniadau a phenderfyniadau asesu a chanlyniadau a gynhyrchir drwy ddefnyddio technoleg yn y broses yn ddibynadwy, yn ddigonol ac yn hawdd eu holrhain.
- Mae'r holl brotocolau'n cael eu cynnal yng nghyd-destun 'arsylwi' e.e. gofyn am ganiatâd a chadarnhau pwrpas y gweithgaredd asesu.
- Rhaid i weithgareddau asesu lle defnyddir technoleg gael eu hymgorffori mewn cynlluniau a gweithgareddau samplu sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.
- Nid yw dysgwyr dan anfantais oherwydd y defnydd o dechnoleg ac maent yn ymwybodol o'i defnydd.
- Mae gofynion dysgu, cefnogaeth, datblygu sgiliau neu anghenion datblygu eraill y dysgwr yn cael eu cefnogi'n llawn drwy gydol y broses gymhwyso.
- Mae technoleg yn cael ei defnyddio'n dda i wir wella proses asesu, profiad, canlyniadau a sgiliau digidol y dysgwr.
- Dylai pawb rannu arferion a gwersi a ddysgwyd i gefnogi'r gwaith o adolygu a gwella'n barhaus.

## 6 Sicrhau ansawdd mewnol

6.1. Mae sicrhau ansawdd mewnol yn allweddol i sicrhau bod y dystiolaeth sy'n cael ei hasesu o ansawdd cyson a phriodol. Dylai'r broses hon gael ei chefnogi gan weithgareddau a chynlluniau samplu cadarn sy'n digwydd ar ddechrau, canol a diwedd y daith gymhwyso ac sy'n rhoi cyfrif am unrhyw risgiau posibl yn y broses asesu. Rhaid i'r rhai sy'n sicrhau ansawdd mewnol fod â gwybodaeth alwedigaethol am yr uned y maent yn ei sicrhau a bod yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Cyfrifoldeb y Sefydliad/Corff Dyfarnu yw cadarnhau bod y rhai sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewnol yn gymwys ar gyfer y rôl hon.

6.2. Os yw'r swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn wybodus ond heb gymhwyso eto, rhaid i swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig wneud penderfyniadau terfynol. Dylai strategaeth adlofnodi glir gefnogi a chadarnhau penderfyniadau gan staff heb gymhwyso tan eu bod wedi cymhwyso'n llawn.

6.3. Rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewnol gael yr awdurdod a'r adnoddau i fonitro gwaith aseswyr. Mae ganddynt gyfrifoldeb i amlygu a chynnig ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw heriau yn y broses asesu (e.e. sicrhau bod aseswyr addas yn cael eu haseinio i adlewyrchu cryfderau ac anghenion dysgwyr penodol).

6.4. Rhaid i'r rhai sy'n gwneud gwaith sicrhau ansawdd allanol fod yn wybodus yn alwedigaethol a deall cyd-destun polisi ac ymarfer y cymwysterau y maent yn ymwneud â hwy. Cyfrifoldeb y Sefydliad/Corff Dyfarnu yw cadarnhau bod y rhai sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd allanol yn gymwys ar gyfer y rôl hon.

6.5. Mae gan y rhai sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd allanol gyfrifoldeb i hyrwyddo gwelliant parhaus yn ansawdd y prosesau asesu.

## Diffiniadau

**Galwedigaethol gymwys:** Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob asesydd allu cyflawni gofynion llawn yr unedau cymwysterau penodol y maent yn eu hasesu. Gall cymhwysedd galwedigaethol fod ar lefel uned ar gyfer meysydd arbenigol: gallai hyn olygu y gallai fod angen gwahanol aseswyr ar draws cymhwyster cyfan, tra bo'r penderfyniad asesu terfynol ar gyfer cymhwyster yn aros gyda'r prif asesydd. Mae bod yn alwedigaethol gymwys hefyd yn golygu bod yn wybodus yn alwedigaethol. Dylid cynnal y cymhwysedd galwedigaethol hwn yn flynyddol drwy ddysgu parhaus amlwg a datblygiad proffesiynol.

**Gwybodus yn alwedigaethol:** Mae hyn yn golygu y dylai pob asesydd a swyddog sicrhau ansawdd mewnol feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i'r cymwysterau a / neu'r unedau penodol y maent yn eu hasesu neu'n sicrhau eu hansawdd yn fewnol. Dylid cynnal yr wybodaeth alwedigaethol hon yn flynyddol drwy ddysgu parhaus amlwg a datblygiad proffesiynol. Mae'n hanfodol bod swyddogion sicrhau ansawdd mewnol yn deall natur a chyd-destun gwaith yr aseswyr a gwaith eu dysgwyr.

**Cymwys i wneud penderfyniadau asesu:** Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob asesydd feddu ar gymhwyster sy'n addas i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau asesu priodol a chyson. Bydd Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu yn penderfynu beth fydd yn cymhwyso'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau asesu yn ôl yr uned sgiliau sy'n cael ei

hasesu. Ceir rhestr o gymwysterau cyffredinol aseswyr yn Atodiad B. Cyfeiriwch hefyd at ganllawiau ychwanegol ar gyfer cymwysterau yn y wlad berthnasol, os ydynt ar gael.

**Cymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd:** Bydd Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu yn penderfynu beth sy'n gwneud y rhai sy'n ymgymryd â sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn gymwys i wneud penderfyniadau am y sicrwydd ansawdd hwnnw. Ceir rhestr o gymwysterau cyffredinol sicrhau ansawdd mewnol yn Atodiad B. Cyfeiriwch hefyd at ganllawiau ychwanegol ar gyfer cymwysterau yn y wlad berthnasol, os ydynt ar gael.

**Tystiolaeth tyst:** Mae tystiolaeth tyst yn gofnod o ymarfer sydd wedi cael ei weld neu ei brofi gan rywun ar wahân i'r asesydd a'r dysgwr.

## Atodiad A: Sgiliau Gofal a Datblygu - dolenni at wefannau partneriaid

Sgiliau Gofal a Datblygu

Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon

Gofal Cymdeithasol Cymru

Skills for Care

Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban

## Atodiad B: Cymwysterau cydnabyddedig i aseswyr a'r rhai sy'n sicrhau ansawdd mewnol

Nod y rhestr hon yw rhoi trosolwg o gymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn gyffredinol. Mynnwch arweiniad ychwanegol gan y gwledydd unigol a'r Sefydliadau/Cyrff Dyfarnu lle bo angen.
Dylech hefyd wirio a chymhwyso gofynion CPD/CPL ar gyfer cymwysterau a ddelir.

**Asesydd:**

- D32 Asesu Perfformiad Ymgeisydd a D33 Asesu Ymgeisydd gan Ddefnyddio Gwahanol Ffynonellau Tystiolaeth
- A1 Asesu Perfformiad Ymgeisydd gan Ddefnyddio Amrywiaeth o Ddulliau ac A2 Asesu Perfformiad Ymgeisydd drwy arsylwi (ynghyd â CPD/CPL yn unol â Dysgu a Datblygu9 neu Dysgu a Datblygu9DI presennol)

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith (ar gyfer canlyniadau cymhwysedd / dysgu sgiliau yn unig)
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Cysylltiedig â Galwedigaeth (ar gyfer canlyniadau dysgu gwybodaeth yn unig)
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol
- Statws Athro Cymwysedig
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu cymhwysedd yn yr amgylchedd gwaith
- Tystysgrif Addysg mewn Addysg Ôl-orfodol (PCE)
- Dyfarniad ôl Gymhwyso Gwaith Cymdeithasol mewn Addysgu Ymarfer
- Tystysgrif Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (CTLLS)
- Diploma mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (DTLLS)
- Mentora ac Asesu mewn Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Mentora mewn Ymarfer Clinigol/Gofal Iechyd
- Dysgu a Datblygu9DI - Asesu cymhwysedd yn y gweithle gan ddefnyddio dulliau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol (Yr Alban)
- Dysgu a Datblygu9D - Asesu cymhwysedd yn y gweithle gan ddefnyddio dulliau Uniongyrchol (Yr Alban)
- Dyfarniad Tiwtor/Asesydd Lefel 3 Dyfarniadau a Thystysgrif mewn Asesu Ansawdd Asesu
- Dyfarniadau a Thystysgrifau Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Asesu
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant
- Tystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant
- Diploma Lefel 5 mewn Addysg a Hyfforddiant
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol
- Penodol i Gymru: Rhaid i raglenni dysgu perthnasol sy'n cefnogi dysgu ymarfer/addysg ymarfer ar waith cymdeithasol gael eu rheoleiddio a'u cymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru
- Penodol i'r Alban: Cymhwyster Addysgu ar gyfer Addysg Bellach a CPD yn unol â Dysgu a Datblygu9D presennol

**Sicrhau Ansawdd Mewnol:**

- Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain y gwaith o Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu
- Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu
- Uned D34: Dilysu'r broses asesu yn fewnol
- Dyfarniad Dilyswyr V1
- V1 Cynnal sicrhau ansawdd mewnol y broses asesu (ynghyd â CPD/CPL yn unol â'r safon Dysgu a Datblygu11 bresennol)
- Dysgu a Datblygu11 - Monitro a Chynnal yn Fewnol Ansawdd Asesu yn y Gweithle (Yr Alban J8RT 04)